# YNYS-Y-BWL

Gohebydd Lleol: Nansi Valentine.

Y TABERNACL
CYSTADLEUAETH IEUENCTID
O dan nawdd Mudiad Ieuenctid yr Annibynwyr fe drefnwyd cystadleuaeth "Cerdyn Nadolig". Roedd nifer fawr o blant o bob cwr o Gymru wedi cystadlu, ac fe wnaeth plant y Tabernacl yn neilltuol o dda. Mrs Carolyn Tudur, Caerdydd, oedd yn beirniadu a'r buddugwr oedd Bethan Jones, Wrecsam; fe ddaeth Catherine Jones o'r Tabernacl yn drydydd ac am eu bod mor agos at eu gilydd, fe roddwyd bathodyn arbennig i Nicola, Carys, Geraiant, Nerys, Jonathan, Mathew, Emyr a Vickie am eu hymderchion. Daliwch ati blant.

DIACONIAID NEWYDD
Yn ystod Gwasanaeth Cymun mis Ionawr fe dderbyniodd y gweinidog, Y Parch J.O. Davies ddau ddiacon newydd, sef Mrs Eirlys Nicholls a Mr Tecwyn Davies. Hefyd, fe anrhydeddwyd dau swyddog sef, Mrs Sali Owens, cyn-drysoryddes a Mr Eurof Jones yr ysgrifennydd, trwy eu derbyn hwythau fel diaconiaid. Bendith Duw ar bob un ohonynt.

CYSTADLEUAETH GŴYL DDEWI
Llongyfarchiadau i Catherine Jones a Nerys Nicholls am eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth **Tafod Elai**. Fe ddaeth Catherine yn ail yn y gystadleuaeth 8-10 oed, ac fe ddaeth Nerys yn drydydd yn y gystadleuaeth 10-12 oed.

CINIO DYDD GŴYL DDEWI
Ar nos Fawrth, Mawrth 1af, eisteddodd bron i hanner cant o bobl i lawr i fwynhau gwledd arbennig. Paratowyd y cinio gan Gwmni Boyce, Penygraig. Cafwyd cyngerdd wedyn gyda chaneuon gan Nerys Nicholls a Catherine Jones dan hyfforddiant Mrs Caryl Williams. Yr unawdydd oedd Mr Eurof James, ac fe fwynhaodd pawb yr eitemau digrif a llawn hiwmor gan Mr Paul Davies, mab y Gweinidog a Mr Idwal Davies.

NODDFA
Ar fore Sul, Chwefror 28, cynhaliwyd gwasanaeth i ymgysegru plentyn, dan ofal y Parch Hywel Lewis. Luke Maddock, baban Mr a Mrs Gary Maddock oedd yn cael ei gyflwyno ac fe gafwyd gwasanaeth

NOSON PLAID CYMRU
Ar nos Sadwrn, Chwefror 26ain fe ddaeth torf fawr o bob cwr o Gwm Cynon i fwynhau noson ddiddorol iawn. Yn ystod y noson anrhydeddwyd dau aelod oedd wedi cyfrannu cymaint i'r Blaid dros y blynyddoedd sef, Mr Dafydd Roberts gynt o Aberdar a'r Cynghorydd Gernant Jones, Ynysybwl. Talwyd teyrnged iddynt gan Mr Idwal Davies, y Cynghorydd Mrs Pauline Jarman, Maer Cwm Cynon, a Mr Brian Arnold Cangen Ynysybwl. Cyflwynwyd draig goch o wydr iddynt. Trefnwyd y noson gan Cangen Ynysybwl o Blaid Cymru.

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E.June Huws

BETHLEHEM
Ar fore Sul Mawrth 6ed cymerodd nifer o blant ac oedolion ran mewn pasiant gan Emyr Edwards i ddathlu pedwarcanmlwyddiant Beibl William Morgan.

DIRPRWYPRIFATHRAWES
Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Marian Evans o Radyr ar ei hapwyntiad yn ddirprwy-prifathrawes yn Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl yn yr ysgol a dymunwn bob llwyddiant iddi.

EISTEDDFOD GYLCH
Llongyfarchiadau i'r plant a gynrychiolodd Ysgol Gwaelod y Garth yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Rhydfelen. Daeth Katy May yn drydydd yn yr adrodd dan wyth ac mae'r Parti Unsain a'r Côr Grŵp 3 wedi cael mynd drwyddo i'r Eisteddfod Sir.

MARWOLAETH
Mae'n drist cyhoeddi marwolaeth Mr Lynn Tomas, 1 Garth Villas, Gwaelod y Garth. Roedd Mr Thomas yn hen ŵr addfwyn a charedig a fu, pan yn ifanc yn weithgar ymysg ieuenctid yr ardal. Gedy weddw Mrs Marie Thomas, a hoffem estyn ein cydymdeimlad dwys iddi yn ei phrofedigaeth.

YMGYRCH PRYNU TELYN
Mae grŵp o famau yn brysur yn trefnu gweithgareddau i godi arian am delyn i Ysgol Gwaelod y Garth. Yr achlysur cyntaf fydd Ffair Sborion Safonol a gobeithir ei chynnal ym mis Ebrill. Am fwy

# LLANTRISANT

Gohebydd: Eirlys Lamb

Eisteddfod yr Urdd
Bu plant Llantrisant yn arbennig o lwyddiannus eleni yn Eisteddfod Gylch yr Urdd, gyda'r Ysgol Gynradd Gymraeg yn cipio'r wobr gyntaf ar ddeg o eitemau. Roedd hi'n hyfryd hefyd gweld plant Ysgol Gymraeg Castellau yn dechrau cystadlu - ac yn ennill! Braf hefyd oedd gweld dysgwyr o rai o ysgolion yr ardal yn cystadlu. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ac i'r rhai a fentrodd i lawr i Bafiliwn Porthcawl i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau hefyd i Bwyllgor Cylch Llantrisant a fu'n trefnu'r ddwy eisteddfod.

Cymdeithas Rhieni'r Ysgol
Roedd y Ffair Sborion a gynhaliwyd y mis diwethaf yn Neuadd Gymuned Tonysguboriau yn llwyddiannus iawn ac fe ddaeth â rhyw £150 i goffrau'r Gymdeithas.

Gwellhad
Dymunwn wellhad buan i Mrs Fudge, Llantrisant sydd wedi bod yn dost yn ddiweddar.

Capel Castellau
Cyflwynwyd copi o'r Beibl Cymraeg Newydd i bob un o blant yr Ysgol Sul. Cafodd nifer dda o'r plant eu copi o'r Beibl mewn gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd yn y Tabernacl, Efail Isaf ar 6 Mawrth.

Yr Ysgol Feithrin
Dechreuwyd y flwyddyn ym mis Medi gyda rhyw 30 o blant yn unig ar y llyfrau, ond mae'r nifer wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf ac erbyn hyn mae'r ysgol yn llawn eto ac yn derbyn 40 o blant bob bore. Bydd dosbarth newydd o ddeuddeg o blant yn dechrau ar ôl gwyliau'r Pasg ac yn cyfarfod yn y prynhawniau.

Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf-Elai, cylch Llantrisant
Cyhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i sefydlu'r pwyllgor hwn yn y Ganolfan Hamdden ar 28 Mawrth. Os oes unrhyw un arall a hoffai gynnig help mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â John Thomas -